

Cyn etholiadau Senedd Cymru, mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain (British Veterinary Association) yn galw ar bob plaid i ymrwymo i addewidion allweddol i wella iechyd a lles anifeiliaid, cefnogi'r proffesiwn milfeddygol, ac amddiffyn iechyd y cyhoedd yng Nghymru.



Diogelu lles anifeiliaid adeg eu lladd ac wrth eu cludo

Mae lladd anifeiliaid heb eu stynio yn gyntaf yn peryglu lles miliynau o anifeiliaid. Rydym yn galw am labelu cig a chynhyrchion cig o anifeiliaid nad ydynt wedi'u stynio cyn eu lladd yn glir, er mwyn gwella dewis defnyddwyr. Rydym hefyd yn galw am deledu cylch cyfng gorfodol ym mhob lladd-dy yng Nghymru a rheoliadau newydd ar sail tystiolaeth ar les yn ystod trafniadaeth.



Cyfeirio cyllid amaethyddol tuag at wella iechyd a lles anifeiliaid

Dylid defnyddio arian cyhoeddus i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i gymell a chefnogi canlyniadau iechyd a lles anifeiliaid da o fewn y fframwaith arfaethedig ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Rydym hefyd am weld cyfranogiad cadarn gan filfeddygon yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r polisi ariannu newydd.



Ymrwymo i reoli clefydau ar sail tystiolaeth

Mae iechyd anifeiliaid gwael yn arwain at broblemau lles. Gall hefyd arwain at gostau economaidd i amaethyddiaeth Cymru a gall gyfrannu at newid yn yr hinsawdd gan nad yw cynhyrchiant isel yn gynaliadwy. Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth rhwng ffermwyr, milfeddygon a'r llywodraeth y gellir dileu clefydau endemig fel Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) a'r clafr. Rydym yn galw am ddeddfwriaeth i ddilyn diwedd cynllun gwirfoddol Gwaredu BVD.



Cymhwyso gwyddor ymddygiadol i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg

Mae gwyddor ymddygiadol yn greiddiol i'n dull o fynd i'r afael â TB mewn gwartheg. Hoffem weld mwy o rannu data rhwng milfeddygon y llywodraeth a milfeddygon preifat; a ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am arferion biodiogelwch da, gan gynnwys cyrchu diogel, drwy gydnyddiaeth ar sail perfformiad. Rhaid cyfeirio cyllid ymchwil at yr ardaloedd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf, megis datblygu brechlyn gwartheg a phrofion gwell, a gwell dealltwriaeth o effeithiau brechu moch daear. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth newydd ar gyfer Twberculosis Buchol i Gymru ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig cyfle cyffrous i gefnogi'r agenda ymchwil hon.



Hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o wrthficrobau

Mae gwaith cyfredol gan filfeddygon, ffermwyr a'r diwydiant eisoes wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yng ngwerthiant gwrthfotigau i'w defnyddio mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a rhaid parhau â chefnogaeth y llywodraeth i raglen lwyddiannus Arwain Vet Cymru. Rhaid cynnwys dull Iechyd Cyfunol o ddefnyddio gwrthficrobau yn gyfrifol, sy'n cwmpasu pryderon amgylcheddol, mewn polisiâu amaethyddol a masnach.



Ymgorffori ymdeimlad anifeiliaid mewn deddfau

Rhaid i'r gyfraith gynnwys ymdeimlad anifeiliaid fel blaenoriaeth, gan gynnwys cramenogion a ceffalopodau dectroed. Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod anifeiliaid yn ymdeimladol ac, yn bwysig, yn rhoi dyletswydd ar y wladwriaeth i roi sylw dyledus i les anifeiliaid wrth ddatblygu a gweithredu polisi.



Rhoi hwb i'r gweithlu milfeddygol

Mae milfeddygon yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid, iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd, a hwyluso masnach. Rydym angen digon o filfeddygon i fodloni'r galwadau ychwanegol am ardystiadau allforio a mewnfario sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE; darparu gwasanaethau clinigol 24/7; a sicrhau safonau uchel gweithgareddau iechyd a lles anifeiliaid hanfodol, megis goruchwyllo clefydau. Rydym yn galw am system fewnfudo sy'n cefnogi anghenion y gweithlu milfeddygol.



Cryfhau deddfwriaeth yn erbyn mewnfario cŵn bach yn anghyfreithlon

Bu cynnydd mawr yn y galw am gŵn bach yn ystod y pandemig. Rydym yn pryderu y gallai pobl fod yn troi at weithgarwch bridio anghyfreithlon neu fewnfario. Rydym yn galw am ddeddfwriaeth gryfach o ran teithio ar gyfer anifeiliaid anwes er mwyn atal smyglo cŵn bach yn anghyfreithlon, drwy godi'r oedran y gall cŵn bach ddod i mewn i'r wlad.



Gwahardd mewnfario cŵn â chlustiau wedi'u torri

Mae cynnydd diweddar mewn achosion o dorri clustiau yn anghyfreithlon yn cyfeirio at yr angen am weithredu brys i leihau'r duedd hon sy'n peri pryder. Mae'n anffurfiad diangen, poenus heb unrhyw fudd i les. Er ei bod yn anghyfreithlon tocio clustiau ledled y DU, nid yw'n anghyfreithlon gwerthu na mewnfario cŵn â chlustiau wedi eu tocio, na mynd â chŵn dramor i'w tocio. Rydym am gau'r bylchau hyn a rhoi terfyn ar y duedd mewn tocio clustiau cŵn yn gyfan gwbl.



Gwella'r gallu i olrhain wrth fridio cŵn

Dylid diweddar Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i wella iechyd a lles cŵn bach a fegir yng Nghymru. Dylai fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n defnyddio ci ar gyfer bridio gofrestru gyda'i awdurdod lleol er mwyn gwella gallu awdurdodau lleol i olrhain, ac i ddarparu tryloywder i ddarpar berchnogion cŵn. Rydym hefyd yn galw am un gronfa ddata ar gyfer cofrestru microsglodion.



Gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes

Mae primatiaid yn anifeiliaid hirhoedlog, deallus a chymdeithasol gymhleth. Mae bron yn amhosibl i berchnogion preifat fodloni'r gofynion gofal y mae ar primatiaid eu hangen fel y'u diffinnir o dan ddeddfwriaeth lles anifeiliaid. Rydym yn galw am wahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes.



Rhoi lles anifeiliaid ar y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid yn rhoi dyletswydd gofal ar unigolion i ddarparu ar gyfer pum angen o ran lles anifeiliaid. Mae'n hanfodol bod plant yn dysgu am yr anghenion lles a'r cysyniad o ddyletswydd gofal i sicrhau bod gan anifeiliaid iechyd a lles da a bywyd sy'n werth ei fyw.